# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU ATODOL A DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 89 Gorchmynion

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Mesur hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer—

(i) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion, ardaloedd, awdurdodau a disgrifiadau o awdurdod;

(ii) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(iii) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

F1(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F1(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F1(4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 89(2)-(4) wedi ei hepgor (26.1.2019) yn rhinwedd Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 (anaw 1), a. 11(3)(4), **Atod. 1 para. 7(3)**; O.S. 2018/100, ergl. 2(b) (ynghyd ag ergl. 3) (ynghyd â savings in O.S. 2019/110, rhl. 5)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 89 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 90(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, Adran 89.